OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1215

## Rheoliadau Dosbarthu Carcasau a Hysbysu eu Prisiau (Cymru) 2018

## RHAN 5

## GORFODI A THROSEDDAU

**Hysbysiadau cosb**

**22.**—(1) Os oes gan Weinidogion Cymru reswm dros gredu bod person wedi cyflawni trosedd o dan y Rheoliadau hyn, caiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad (“hysbysiad cosb”) i’r person hwnnw yn unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Caiff hysbysiad cosb fod am unrhyw swm.

(3) Rhaid i hysbysiad cosb—

(a) rhoi unrhyw fanylion am amgylchiadau’r drosedd honedig sy’n angenrheidiol i roi gwybodaeth resymol am y drosedd;

(b) datgan swm y gosb;

(c) datgan yn ystod pa gyfnod, yn rhinwedd rheoliad 23, na chychwynnir achos ynglŷn â’r drosedd;

(d) datgan i ba berson ac ym mha gyfeiriad y gellir talu’r gosb; ac

(e) datgan ym mha fodd y caniateir i’r taliad gael ei wneud.